Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar
# Cylch Meithrin Ynysybwl
# Heol Glyn
# Ynysybwl
# Pontypridd
# CF37 3DS

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Ynysybwl yn festri ac ystafelloedd cyfagos capel lleol.  Mae Ynysybwl yn gymuned sy`n nodweddiadol o gymunedau yn y cymoedd, rhyw 4 milltir i`r gogledd o Bontypridd.

Mae`r fynedfa sydd ar ochr y capel yn agor i ystafell sylweddol sy`n gynnes ac yn olau.  Nodwedd nodedig o`r ystafell yw`r defnydd rhagorol a wneir o`r holl le sydd ar gael i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau i`r plant, yn unol ag athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Er enghraifft, mae ardaloedd penodedig ar gyfer darllen, ysgrifennu, gwaith rhif, a gweithgareddau creadigol ac archwilio.

Tu hwnt i`r ystafell hon ac yn ychwanegol i`r tu allan, mae`r Feithrinfa wedi ychwanegu ardal dan do sydd wedi`i hadeiladu`n dda a`i hamgáu`n llawn ac felly`n darparu`r plant â chyfleusterau cynnes a sych pa beth bynnag yw`r tywydd.  Mae`r ardal hon yn cynnwys ardaloedd chwarae gwlyb ac ardaloedd ychwanegol ar gyfer archwilo a chwarae rôl.  Mae`r ystafell hon yn agor i ardal balmentog o flaen y capel a hon yw`r brif fynedfa ar gyfer rhieni a phlant.  Mae`r ardal hon yn ddiogel ac yn darparu ardal chwarae tu allan ar gyfer y plant o dan oruchwyliaeth.  Mae hefyd gyfleusterau toiled a golchi dwylo a chegin fach lle caiff byrbrydau eu paratoi yn rhan o`r brif adeilad.  Mae`r brif adeilad hefyd yn darparu ystafell athrawon fach a chyfleusterau ar gyfer storio cofnodion cyfrinachol a chynnal cyfarfodydd preifat yn ôl yr angen.

Caffaeliad nodedig diweddar yw rhandir sy`n darparu profiadau gwerthfawr ar gyfer y plant yn nhermau ardal fywyd gwyllt a gwelyau gosod planhigion sydd wedi`u codi ar gyfer tyfu hadau a phlanhigion.  Mae`r ardal hon yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Daw`r mwyafrif o`r plant o`r ardal leol, er daw rhai o ymhellach i ffwrdd er mwyn elwa o`r ddarpariaeth o safon uchel sy`n cael ei darparu gan y Feithrinfa. Gan fwyaf, cartrefi tai teras sydd yn yr ardal sydd ag ardaloedd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.  Caiff rhan o`r gymuned ei chydnabod fel ardal gymuned yn gyntaf ac mae plant o`r ardal hon yn elwa o ddarpariaeth “Dechrau`n Deg” sy`n cael ei darparu gan y Cylch.  O bryd i`w gilydd mae ambell i blentyn o gefnidr ethnig lleiafrifol yn y Cylch ac mae nifer o blant sy`n dod i`r Cylch bob blwyddyn yn dangos anghenion adysgol arbennig gwahanol.

Daw`r holl blant o gartrefi Saesneg eu hiaith ac er bod rhai o`r rhieni wedi mynychu ysgolion uwchradd Cymreig, iaith y cartref yn ddieithriad yw Saesneg.  Daw`r plant i`r Cylch yn dilyn eu hail benblwydd.  Mae`r rhieni yn cael eu hannog i ymweld cyn i`w plentyn ddechrau yn y Cylch a hefyd i ddod gyda nhw i`w setlo ar y dechrau.  Mae`r cyswllt cyntaf gyda`r Cylch yn galluogi`r staff i fod yn ymwybodol o unrhyw anabledd sydd gan y plentyn a daw hyn yn nodwedd bwysig o ddarpariaeth addysgol y plentyn. Mae`r plant yn gadael y Cylch rhywbryd ar ôl eu trydydd penblwydd, yn dibynnu ar leoedd sydd ar gael yn yr ysgol gynradd Gymraeg leol.

Adroddiad ar Cylch Meithrin Ynysybwl
Mehefin 2012

Ar hyn o bryd, mae 22 o blant ar gofrestr y bore, 10 ohonynt yn 3 oed, a 6 yn cael eu hariannu. Mae un deg naw o blant ar gofrestr y prynhawn, pob un ohonynt dan 3 oed. Mae`r Cylch yn gofrestredig gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn i fyny at 24 o blant.

Mae`r Cylch yn cynnig darpariaeth yn yr iaith Gymraeg ac wedi ennill statws “Cylch Rhagorol” gan Fudiad Ysgolion Meithrin.

Cafodd y Cylch ei arolygu yn flaenorol gan AGGCC ym Medi 2012. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig. Nid yw Estyn wedi arolygu`r Cylch o`r blaen.

.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Rhagorol |

**Perfformiad presennol**

Nodweddion rhagorol

- Effaith yr arweinyddiaeth ar safonau, cynnydd y plant a`r profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.
- Ansawdd y rheolaeth.
- Y ddarpariaeth ar gyfer sicrhau lles plant.
- Y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.
- Partneriaeth gyda rhieni a mudiadau proffesiynol eraill.

Nodweddion da

- Safonau a chyflawniad yr holl blant.
- Ansawdd y cynllunio i ddiwallu anghenion y plant ac i ddatblygu eu medrau.
- Ansawdd yr asesu a`r defnydd sy`n cael ei wneud o`r asesu wrth gynllunio ar gyfer anghenion unigol.
- Ystod ac ansawdd yr addysgu a`r defnydd sy`n cael ei wneud o syniadau`r plant yn y dysgu.
- Y defnydd da o`r lle sydd ar gael a`r adnoddau sydd ar gael i`r plant eu defnyddio.

**Rhagolygon gwella**

Nodweddion rhagorol

- Yr arddull ddeinamig ac arloesol sy`n cael eu mabwysiadu gan yr arweinydd.
- Effaith yr arweinyddiaeth ar bob agwedd o`r ddarpariaeth, gan gynnwys cefnogi`r staff.
- Hyblygrwydd a bod yn agored i syniadau newydd.
- Hanes da o welliannau.
- Cydnabyddiaeth gan sefydliadau allanol bod y Cylch yn esiampl o arfer dda.
- Hunan-arfarniad clir a chywir a chynlluniau datblygu sy`n realistig a chyraeddadwy.

Nodweddion da

- Gallu ac ymrwymiad y staff i gyd-weithio er lles y plant.
- Mynychu cyrsiau proffesiynol priodol.
- Staff yn agored i syniadau newydd a`u gallu i arfarnu newid.

## Argymhellion

Rhaid i`r lleoliad

- gynnal yr ymrwymiad presennol i gynhyrchu`r profiadau gorau posibl ar gyfer y plant;
- parhau i ddatblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg a chynnwys y rhieni`n ymhellach fel partneriaid yn addysg y plant; **
- datblygu`r rhandir a gafwyd yn ddiweddar ymhellach. **

NODER ** Wedi`i nodi gan y Cylch yn ei gynlluniau datblygu.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cylch yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y Cylch i baratoi astudiaeth achos yn disgrifo`r arfer ragorol a nodwyd yn yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae cynnydd a chyflawniad y plant yn dda.

Mae`r plant yn dechrau yn y Cylch gyda gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth gwahanol iawn ond mae`r addysgu arloesol a dychmygus yn effeithiol iawn wrth gymell yr holl blant. Mae`r holl blant yn cyflawni`n dda mewn perthynas â`u gallu a`u dysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad academaidd a chymdeithasol.

Mae gallu ieithyddol y plant wrth ddechrau yn amrywiol iawn ac nid oes braidd dim gallu ganddynt yn yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, ar ôl cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg a thrwy ymrwymiad yr holl oedolion, mae`r plant yn datblygu eu gallu fel eu bod yn ddigon cymwys i fynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Drwyddi draw, mae medrau cyfathrebu`r plant yn datblygu`n dda fel bod eraill yn eu deall a dangos bod ganddynt ddealltwriaeth datblygol o`r iaith Gymraeg. Maen nhw`n deall mwy o`r iaith nag y fedrant eu siarad. Mae`r plant yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn caneuon a hwiangerddi Cymreig yn enwedig caneuon actol. Maen nhw`n mwynhau storïau ac mae llawer o blant yn dechrau edrych ar lyfrau.

Maer` rhan fwyaf o`r plant yn ymarfer creu marciau gan ddefnyddio sialc tu allan ar waliau a`r llawr, a phenseli a phapur ar eu bwrdd ysgrifennu. Mae`r plant fwy galluog yn dangos eu bod yn gwybod beth yw pwrpas ysgrifen.

Mae medrau rhifedd y plant yn datblygu`n dda ac mae llawer yn cyfrif yn gywir i 3 ac ymhellach. Mae`r plant fwy galluog yn adnabod siapiau sylfaenol, gan gynnwys trionglau, cylchoedd a sgwarau ac yn cyfateb siapiau gwahanol. Mae`r plant hyn yn dechrau defnyddio iaith fathemategol fel hir a byr, llawn a gwag.

Mae`r holl blant yn defnyddio cyfrifiaduron a chamerau digidol gan nodi eu dealltwriaeth sylfaenol o dechnoleg. Hefyd, mae`r plant yn defnyddio chwyddwydrau wrth arsywli trychfilod.

Drwyddi draw, mae`r plant yn cael profiad o amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu sy`n eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau echddygol – mae`r mwyafrif yn defnyddio sisyrnau yn gymwys i wneud siapiau fel tai ac yn peintio gan ddefnyddio lliwiau i gynhyrchu arlliwiau gwahanol.

Nodwedd arbennig o dda o ddysgu`r plant, a nodwyd hyn gan rieni, yw datblygiad eu medrau cyfathrebu a`u medrau iaith a`u defnydd cynyddol o`r iaith Gymraeg.

**Lles: Rhagorol**

Mae`r holl blant yn dangos agwedd bositif tuag at eu dysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau sy`n cael eu darparu ar eu cyfer yn y Cylch. Mae`r plant, pa beth bynnag yw eu gallu a chefndir, yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae hyn yn cael ei amlygu`n dda yn y ffordd maen nhw`n canolbwyntio`n barhaus ac yn eu hymrwymiad i`r dasg o dan sylw. Roedd y modd mae`r plant yn gweithio yn yr amgylchedd tu allan yn amlygu hyn yn dda iawn, lle roedd plant unigol yn dilyn eu diddordebau arbennig ac yn hapus i ddangos beth oeddent wedi dod o hyd iddo i`w ffrindiau. Mae`r plant ifanc yma`n uniaethu â`i gilydd yn dda iawn, gan ddangos ystyriaeth am deimladau`i gilydd a thrwy gydweithio ar dasgau. Nodwedd rhagorol oedd brwdfrydedd y plant wrth iddynt gyrraedd y Cylch yn y bore a`r modd maent yn awyddus i gymryd rhan yn y tasgau a`r gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae`r rhain yn nodweddion rhagorol.

Mae bron pob plentyn yn gwybod sut i gadw`n iach, er enghraifft, golchi dwylo cyn bwyta bwyd. Mae`r byrbrydau bore yn achlysuron cymdeithasol lle mae`r plant yn dangos goddefgarwch ac yn helpu ei gilydd. Maen nhw`n siarad â`i gilydd yn hapus ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Mae`r plant yn hollol rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o gam-drin corfforol ac yn teimlo`n hollol ddiogel.

Mae lles y plant yn ganlyniad i farn gyfannol staff ar les plentyn pa beth bynnag yw eu cefndir neu alluoedd arbennig. Drwyddi draw, mae hyn yn sicrhau cyfranogiad rhagorol ac eithriadol gan blant, yn eu mwynhad o ddysgu ac yn eu hagweddau tuag at gadw`n iach.

Mae`r Cylch ym ymwneud yn weithredol mewn sawl agwedd o waith y gymuned sy`n dod â phlant ac oedolion at ei gilydd ym mywyd yr ardal.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r Cylch yn darparu`r plant â chwricwlwm cyfoethog a llawn bywyd sy`n ysgogi`r plant i gymryd rhan ac yn llwyddo i gynnal eu diddordebau. Mae`r profiadau dysgu`n canolbwyntio`n dda ar sicrhau cynnydd plant tuag at fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Mae`r cwricwlwm yn adeiladu`n llwyddiannus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant.

Mae cynllunio yn ymarfer sy`n cael ei wneud ar y cyd ac yn cynnwys staff a phlant. Mae`r gweithgareddau`n canolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau sy`n herio`r plant ac yn datblygu eu hannibyniaeth a`u hyder mewn dysgu. Wrth weithio ar y cyd, mae`r plant yn ymwneud yn dda â`i gilydd ac yn dangos parch.

Mae`r gweithgareddau`n cael eu cynllunio`n bwrpasol i ddatblygu pob agwedd o ddysgu`r plant. Mae ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd y plant, yn enwedig eu caffaeliad o`r iaith Gymraeg, medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth, ynghyd â`u medrau corfforol a chreadigol. Mae`r gwaith yn yr amgylchedd tu allan yn canolbwyntio ar bethau byw ac mae`r plant yn dangos eu bod yn ymwybodol o agweddau fel cylch bywyd, fel pan dywedodd un plentyn wrth ymwelydd bod... “yr ŵy yn cynnwys cyw ifanc bydd yn deor”.

Mae astudiaethau fel Diwali yn helpu`r plant i ddechrau datblygu dealltwriaeth o`r byd. Mae astudiaethau o ddathliadau o Gymru yn ymestyn eu gwybodaeth o draddodiadau a diwylliant Cymru.

Caiff cyfleoedd da eu darparu i`r plant ddysgu am gynaladwyedd ac ail-gylchu. Mae tyfu hadau a phlanhigion yn rhoi cipolwg i`r plant o`r deunyddiau angenrheidiol ar gyfer tyfiant fel ... “mae baw ceffyl a dŵr yn helpu planhigion i dyfu”. Mae ailgylchu yn cynnwys gwahanu deunyddiau gwahanol yn ddibynnol ar eu priodweddau.
.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff ddealltwriaeth drwyadl o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol o ddatblygiad plant. Nodwedd nodedig a rhagorol yw disgwyliadau uchel y staff o bob plentyn, pa beth bynnag yw eu gallu a chyflawniad blaenorol. Mae asesiadau clir o allu`r plant a`r defnydd o`r system “gweithiwr allweddol” yn galluogi`r plant i ddatblygu i`w potensial llawn fel bod plant unigol, pa beth bynnag yw eu hanghenion yn medru cael eu targedu ar gyfer addysgu penodol.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio a`u harwain gan oedolion. Mae anghenion y plant yn cael eu diwallu`n hyblyg gan gymryd ystyriaeth o anghenion unigol y plant.

Mae`r holl staff yn cymryd rhan weithredol, yn frwdfrydig ac yn dangos ymrwymiad i`w rôl ac i ddatblygu plant i`w potensial llawn. Maen nhw`n fodelau rôl da eu hunain am eu bod wedi gwneud pob ymdrech posibl i ddysgu Cymraeg a defnyddio`r iaith wrth ddelio gyda phlant. Mae hyn yn galluogi`r plant i gael eu trochi`n llwyr yn yr iaith Gymraeg. Caiff y plant eu rheoli`n dda, gan ddefnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn ô yr angen. Mae`r staff yn sensitif i anghenion a disgwyliadau unigol y plant ac yn ymateb yn briodol. Mae`r oedolion yn defnyddio cwestiynu i herio plant, fel wrth ddatblygu eu medrau meddwl.

Caiff y plant eu hasesu`n rheolaidd fel mater o drefn gan gofnodi`r arsylwadau. Nodwedd dda o`r asesu yw`r defnydd sy`n cael ei wneud o ddeilliannau asesu wrth gynllunio i`r dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod tasgau`n gweddu`n dda i anghenion a diddordebau`r plant ond hefyd i nodi`r gefnogaeth sydd angen gan blant unigol, gan gynnwys y plant fwy abl a thalentog. Ar y cyfan, mae`r sylwadau asesu yn ddefnyddiol ond mae tuedd iddynt fod yn ddisgrifiadol ac, ar adegau, nid ydynt yn canolbwyntio`n ddigonol ar yr elfen o gynnydd ym medrau`r plant.

Mae`r rhieni yn ymwybodol iawn o gynnydd eu plant ac yn cael cyfleoedd pridol i weld y gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn rhagorol ac yn hynod o effeithiol. Mae`r ddarpariaeth nodedig ac arbennig yn amlwg yn null gweithredu cyfannol y Cylch i ofalu am ac arwain y plant gan gynnwys y cydadwaith agos rhwng yr holl bartneriaid. Mae`r Cylch yn darparu arweiniad a thystiolaeth dda i`r gwasanaethau arbenigol priodol sy`n sicrhau bod defnydd da yn cael ei wneud o`r gwasanaethau proffesiynol. Mae gohebiaeth anffurfiol o wasanaethau tebyg yn nodi bod y lleoliad wedi cydweithio gyda`i ganfyddiadau a bod tystiolaeth berthnasol wedi`i rhoi i gefnogi plant unigol.

Mae`r rhieni yn cymryd rhan weithredol ar bob cam o`r cyfnod cyn-Cylch i`r cyfnod trosglwyddo i`r cam nesaf yn addysg y plant. Er ar adegau mae ffeithiau anodd i`w cyflwyno, mae`r rhieni yn ddiethriad yn gwerthfawrogi cefnogaeth y Cylch.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau sefydlog i sicrhau diogelwch y plant. Mae`r holl staff wedi derbyn hyfforddiant berthnasol ac arweinydd y Cylch yw`r person sy`n gyfrifol am ddiogelu plant.

Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).

Mae`r Cylch yn datblygu synnwyr o chwilfrydedd yn y plant am y byd o`u cwmpas yn llwydiannus. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn llwyddo i feithrin gwerthoedd o onestrwydd, tegwch a sicrhau bod y plant yn gwybod beth sy`n gywir ac anghywir. Mae`r Cylch yn helpu plant i gymryd cyfrifoldeb ac i fod yn rhan o`u cymuned.

Mae`r plant sy`n cael eu nodi ag anghenion addysgol ychwanegol yn cael mynediad llawn i bob maes dysgu. Maen nhw`n cael cymorth unigol yn ôl yr angen ac mae`r gwaith yn gweddu`n dda i`w gallu a`u cyflawniad blaenorol. Mae cysylltiad rheolaidd gyda asiantaethau allanol priodol. Mae`r asiantaethau hyn yn gwerthfawrogi dadansoddiad manwl y Cylch o anghenion y plentyn a`i allu i ymgymryd â gweithgareddau dilynol. Mae cysylltiad ag asiantaethau allanol fel y seicolegydd addysg, therapyddion llafar a gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei weld fel y Cylch fel rhan o`r gefnogaeth sy`n cael ei darparu ar gyfer y plant hyn ac nid yn ddiben ynddo`i hun. Yn yr un modd, mae amser y plant yn y Cylch a`r gefnogaeth maen nhw`n ei derbyn yn cael eu gweld fel rhan o`u haddysg tymor hir.

Mae`r Cylch yn ymgynghori â rhieni yn rheolaidd ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu plant ac mae`r Cylch yn adrodd ei fod yn cefnogi rhieni mewn cyfweliadau ag asiantaethau allanol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r Feithrinfa`n gymuned hollol gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i weithgareddau a meysydd dysgu. Nodwedd dda iawn yw`r parch sydd gan y plant tuag at ei gilydd a gwybodaeth a dealltwriaeth y staff o anghenion penodol pob plentyn. Mae`r staff yn brofiadol gyda chymwysterau da ac mae llawer ohonynt wedi bod yn rhan o`r tîm am sawl blwyddyn. Mae pob un yn dangos dealltwriaeth lawn o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn cymryd rhan weithredol yn y cynllunio a`r addysgu. Maen nhw`n creu amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu.

Mae`r adnoddau o ansawdd dda ac yn hygyrch i`r plant. Mae`r ardaloedd o weithgareddau yn canolbwyntio`n dda ar ddarparu cyfleoedd i`r plant wneud cynnydd tuag at ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen.

Mae ychwanegiad i`r ystafelloedd mewn ffurf cyfleuster tu allan sy`n amgylchedd dysgu deniadol i`r plant. Mae`r rhandir sy`n cael ei ddatblygu yn darparu profiadau gwerthfawr i`r plant hefyd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae`r Cylch yn elwa o arweinyddiaeth rhagorol, deinameg ac arloesol sy`n gosod disgwyliadau uchel i`r staff a`r plant. Mae`r disgwyliadau yma`n cael eu gwireddu`n llawn yn ymarferol.

Mae synnwyr clir o bwrpas yn treiddio drwy bob agwedd o waith y Cylch sy`n canolbwyntio`n uniongyrchol ar roi`r ddarpariaeth orau posibl i`r plant. Mae arddull yr arweinyddiaeth yn heintus sy`n annog y staff i fod yn greadigol a dyfeisgar ac i gymryd cyfrifoldeb. Mae`r arweinydd yn chwilio am bob cyfle i ddatblygu ei staff yn broffesiynol, er enghraifft, mynychu cyrsiau perthnasol ac arfarnu sut mae`r wybodaeth yn medru cael eu cynnwys yng ngwaith y Cylch.

Ar hyn o bryd a thros y blynyddoedd diwethaf, mae`r arweinydd wedi cymryd pob cyfle i wella`r lleoliad a`r ddarpariaeth ar gyfer dysgu`r plant. Mae`r ddarpariaeth gyfredol yn greadigol iawn, ar ôl datblygu o ystafelloedd eithaf sylfaenol a roddwyd gan y capel lleol. Fodd bynnag, nid yw`r arweinydd yn hunanfodlon ac mae ganddi cynlluniau adeiladol ar gyfer datblygu ymhellach.

Mae`r nodweddion hyn yn dangos ei medrau dychmygus a chreadigol sy`n cael eu hategu gan fedrau personol yr arweinydd trwy gael y staff i weithio`n dda eithriadol fel tîm a chynnwys rhieni a`r gymuned.

Mae`r arweinydd yn gwneud y fwyaf o gyfleoedd i gynnwys y Cylch yn y gymuned a gweithgareddau`r awdurdod lleol ac mae ei chyfraniad yn cael ei gydnabod yn dda. Mae`r Cylch hefyd yn weithgar mewn mentrau a blaenoriaethau lleol a

chenedlaethol. Mae hyn wedi cynnwys bod yn weithgar gyda er enghraifft, Prosiect Trosglwyddiad Iaith Gynnar (MELT); cynllun Dechrau Da: menter Dechrau`n Deg; Y Proffil Asesu Datblygiad Plentyn; ac ar hyn o bryd y proffil tracio Datblygiad Plentyn RCT diwygiedig ; Iaith Sylfaenol Mudiad Meithrin a bod yn beilot i`r defnydd o ddeunyddiau Cefnogaeth Gynnar ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae`r cynllunio o`r cwricwlwm yn cael ei wneud ar y cyd gyda`r holl staff yn cyfrannu syniadau. Caiff syniadau`r plant eu cynnwys ac mae`r "staff allweddol" yn darparu ar gyfer y plant yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys darparu gwaith ymestynnol ar gyfer y rhai sy`n fwy abl a thalentog ac adolygu`r gwaith ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Yn y ffordd hon, mae`r plant, pa beth bynnag yw eu gallu, yn cael eu herio gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn.

Mae`r staff yn cydweithio`n eithriadol o dda fel tîm a chaiff staff newydd eu hintegreiddio yn gyflym i`r grŵp. Caiff staff newydd eu mentora ac maen nhw`n cael cyfnod ymsefydlu. Mae`r holl staff (gan gynnwys yr arweinydd) yn cael eu gwerthuso`n flynyddol. Wrth drafod, mae anghenion proffesiynol y staff yn cael eu trafod a chynllunir ar eu cyfer.

Mae`r cysylltiadau â rhieni yn hynod o effeithiol, yn ddefnyddiol ac yn cyfrannu`n sylweddol i ddysgu`r plant.

Mae`r pwyllgor rheoli`n gweithio`n effeithiol ac yn cael ei hysbysu`n dda am waith y Cylch. Maen nhw`n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae`r Cylch wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn gwella`r cyfleusterau a`r ddarpariaeth ar gyfer addysg y plant. Mae`r cyfleusterau cyfredol yn amlygu`r cynnydd sydd wedi ei wneud, gan gynnwys codi darpariaeth dan do, a`r defnydd eithriadol sy`n cael ei wneud o`r holl le sydd ar gael. Mae cynlluniau ar waith hefyd i ddarparu ystafelloedd ychwanegol i`r staff fel bod yr ystafell athrawon bresennol yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer darparu ardaloedd o weithgareddau eraill i`r plant. Mae cynlluniau hefyd ar waith i ddarparu lle i`r rhieni gyfarfod ac i gymryd rhan mewn cyrsiau dysgu Cymraeg. Mae hyn yn amlygu sut mae`r Cylch yn cynllunio i weithio gyda`r rhieni a mudiadau allanol.

Drwyddi draw, mae`r ddarpariaeth gyfredol yn dangos llwyddiant yr hunanarfarniad yn y gorffennol a sut mae`r cynllunio datblygu wedi ei wireddu dros sawl blwyddyn. Mae`n dangos sut cafodd meysydd i`w gwella eu blaenoriaethu a sut oedd strategaethau ar gyfer gwelliant wedi eu rhoi ar waith a`u harfarnu. Mae gan y Cylch weledigaeth lawn dychymyg ar gyfer y dyfodol. Mae`r rhain yn nodweddion rhagorol sydd wedi arwain at gynnydd cadarnhaol ar gyfer y plant.

Mae`r rhieni wedi cymryd rhan weithredol, fel codi silffoedd tu fas y drws cefn.

Nodwedd nodedig a rhagorol o`r Cylch yw`r pwyslais ar ddatblygiad proffesiynol staff. Mae`u hanghenion yn cael eu nodi`n glir mewn gweithdrefnau arfarnu sy`n

canolbwyntio`n dda ar anghenion y plant.  Agwedd gwerth chweil yw mesur effaith yr hyfforddi yn nhermau gwella`r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Rhagorol**

Mae`r Cylch yn cymryd golwg gyfannol ar ddatblygiad plant ac mae`r partneriaethau sydd wedi`u sefydlu gyda rhieni ac asiantaethau allanol yn sylfaenol i hyn.

Cyn i`r plant ddechrau yn y Cylch mae`r rhieni yn ymweld mor aml â sydd eisiau gan brofi`r gweithgareddau gwahanol.  Dyma gyfle hefyd i staff  y Cylch gyfarwyddo`u hyn ag anghenion y plentyn unigol.  Mae hyn yn cynnwys trafod gydag unrhyw wasanaethau arbenigol sydd wedi ymwneud â`r teulu yn flaenorol a llunio cynllun datblygu lle bod angen.  Mae`r holl ddarpar rhieni yn derbyn "Pecyn Croeso" sy`n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael cyswllt rheolaidd gyda staff y Cylch a chyfeiriad penodol at yr arweinydd a`r "gweithiwr allweddol" perthnasol.

Mae`r Cylch yn wyliadwrus o unrhyw anghenion ychwanegol a nodwedd da a gwewrthfawr a nodwyd gan aelodau`r gwasanaethau proffesiynol yw`r cofnodion gofalus a manwl sydd ar gael yn y Cylch ynghylch plant maen nhw`n amau o gael anghenion ychwanegol.  Yn ôl gwasanaethau arbenigol, mae hyn yn darparu tystiolaeth ragorol yn ôl yr angen.  Yn yr un modd, mae`r gwasanaethau hyn yn cyferio at barodrwydd y Cylch i roi rhaglenni o gefnogaeth ar waith i blant unigol.

Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu`n llawn.  Os oes angen, bydd staff y Cylch yn cefnogi rhiant mewn cyfarfodydd achos.  Mae nifer o rieni wedi gwerthfawrogi`r gefnogaeth yn fawr.

Mae gan y Cylch gysylltiadau da gyda`r ysgol gynradd leol ac yn sicrhau bod y gefnogaeth i blant unigol yn eu dilyn i`r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae`r hyder a`r cyfathrebu clir rhwng staff ac asiantaethau proffesiynol, a`r modd mae`r Cylch yn cynnwys rhieni mewn penderfyniadau am eu plant yn nodwedd rhagorol.

Mae`r Cylch yn cael ei gydnabod yn lleol fel enghraifft o arfer dda.  Mae`r Cylch wedi cydweithio â meithrinfeydd eraill yn yr awdurdod lleol i roi cyngor, i alluogi cydweithwyr i ymweld â nhw ac i drefnu cyrsiau penodol.  Mae gan y Cylch gysylltiadau effeithiol iawn gyda Mudiad Ysgolion Meithrin.

Felly, mae`r staff wedi cael cyfleoedd i ymwneud â chymunedau dysgu proffesiynol ac yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol i addysg feithrin.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae`r staff yn cael eu lleoli`n effeithiol gan wneud defnydd da o`u harbenigedd.  Mae ganddynt gymwysterau da ac yn gwneud defnydd da o gyrsiau datblygiad proffesiynol i ddiweddaru`u sgiliau.  Mae`r staff yn effeithiol iawn wrth gymell y plant i ddysgu, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau iaith.

Mae`r staff yn dda wrth arfarnu effaith yr adnoddau ar y dysgu ac yn cynllunio`n ofalus ar gyfer anghenion o ran adnoddau yn y dyfodol o fewn cyfyngiadau ariannol.

Mae`r ardal allanol a chafwyd yn ddiweddar yn ychwanegiad gwerthfawr yn nhermau`r potensial i ddatblygu medrau`r plant ar draws pob maes dysgu ac yn enwedig medrau cyfathrebu a gwybodaeth o`u hamgylchedd.  Ar hyn o bryd, mae`r ardal allanol heb ddatblygu digon ond mae cynlluniau ar waith i gynnwys rhieni yn y gwaith hwn.

Mae`r Cylch wedi bod yn llwyddiannus iawn i ddenu cymorth ariannol.  Caiff adnoddau eu defnyddio`n dda iawn a thrwyddi draw mae`r Cylch yn rhoi gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Roedd holiaduron cyn-arolygiad a thrafodaeth â sampl o rieni yn gadael eu plant am y sesiwn bore`n nodi eu boddhad llwyr â`r Cylch a`r staff.

Cafwyd deg ymateb, dim un yn anghytuno ag unrhyw un o`r datganiadau cadarnhaol yn yr holiadur. I grynhoi, roedd canlyniadau`r holiadur fel a ganlyn:

90% yn cytuno`n gryf â`r datganiadau:

- (i) Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.
- (ii) Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn.
- (iii) Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu`n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.
- (iv) Mae`r addysgu yn dda.
- *(v)* Mae`r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.
- (vi) Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.
- (vii) Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
- (viii) Rwy`n teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
- (ix) Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.
- (x) Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Roedd 80% yn cytuno`n gryf â`r datganiadau:

- (i) Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.
- (ii) Mae`r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.
- (iii) Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.

Roedd 70% yn cytuno`n gryf â`r datganiadau:

- (i) Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
- (ii) Rwy`n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.
- (iii) Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Wrth sgwrsio, dywedodd y plant eu bod yn hapus iawn ac yn mwynhau dod i`r feithrinfa`n fawr iawn. Maen nhw`n mwynhau`r gweithgareddau yn enwedig wrth archwilio tu allan. Dywedon nhw bod y staff yn eu helpu pan oedd angen cymorth arnynt, a`u bod yn mwynhau clywed storïau yn cael eu hadrodd a`r canu.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)